PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

# Datganiad Blynyddol ar Gydnabyddiaeth Uwch Staff ar gyfer blwyddyn ariannol 2017–18

Cyhoeddir yr adroddiad hwn yn unol â 'Chod Ymarfer Cydnabyddiaeth Staff Uwch mewn Addysg Uwch' Pwyllgor y Cadeiryddion Prifysgol (CUC) (Mehefin 2018).

**Ymagwedd at Gydnabyddiaeth Uwch yn ystod 2017–18**

Rhwng 22 Mehefin 2015 a 31 Gorffennaf 2018, roedd awdurdod wedi'i ddirprwyo i'r Pwyllgor gan y Cyngor i gytuno ar faterion yn ymwneud â chydnabyddiaeth "yr Is-Ganghellor, y Dirprwy Is-Gangellorion, ac aelodau eraill o Grŵp Gweithredol y Brifysgol" (sef y Cyfarwyddwyr Cyllid, Adnoddau Dynol a Chynllunio; fel yr oedd cyfansoddiad Pwyllgor Gweithredol y Brifysgol ar y pryd pan adolygodd y Cyngor gylch gorchwyl y Pwyllgor y tro diwethaf).

Mae'r Brifysgol yn cydnabod ei bod yn gweithredu mewn amgylchedd cystadleuol ac mae'n dymuno denu a chadw'r staff gorau bosibl. Fodd bynnag, wrth wneud unrhyw benderfyniadau ynghylch cydnabyddiaeth i staff uwch, mae'n ofynnol i'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth gadw fforddiadwyedd y penderfyniadau hyn mewn cof a chyfeirio at ddata meincnodi ar gyfer Prifysgolion cyffelyb.

Yn hyn o beth, tynnwyd ar ddata meincnodi yn Arolwg blynyddol Cymdeithas Cyflogwyr y Prifysgolion a'r Colegau (UCEA) o Gydnabyddiaeth Staff Uwch, ac Arolwg Blynyddol y CUC o Gyflogau Is-Gangellorion.

Mae'r Is-Ganghellor, y Dirprwy Is-Gangellorion, ac aelodau eraill o Grŵp Gweithredol y Brifysgol fel mater o drefn yn derbyn unrhyw ddyfarniadau cyflog 'costau byw' a ddarperir gan y Brifysgol i'w chyflogeion sydd ar y golofn gyflogau a gytunwyd yn genedlaethol.

Fel gyda chyflogeion eraill, rhaid i staff uwch y Brifysgol gyfranogi ym mhroses arfarnu Cynllun Cyfraniadau Effeithiol y sefydliad. Cadeirydd y Cyngor sy'n cynnal yr arfarniad blynyddol hwn ar yr Is-Ganghellor. Ar gyfer staff uwch eraill o fewn cwmpas y Pwyllgor Cydnabyddiaeth, cynhelir yr arfarniad hwn gan eu rheolwr llinell (yn nodweddiadol, yr Is-Ganghellor).

Yna cyflwynir canlyniadau'r arfarniadau hyn i'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth i ffurfio sail ar gyfer unrhyw argymhellion i'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth am unrhyw newidiadau i gydnabyddiaeth y staff uwch dan sylw.

Tra bo'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth hyd at 31 Gorffennaf 2018 yn gallu pennu sut i strwythuro cydnabyddiaeth a lwfansau staff uwch o fewn ei gwmpas, roedd cydnabyddiaeth y cyfryw staff yn ystod cyfnod 2017–18 yn cynnwys cyflog sylfaenol yn unig heb unrhyw ddarpariaeth ar gyfer bonysau'n gysylltiedig â pherfformiad neu honoraria.

**Tâl yr Is-Ganghellor**

Roedd tâl yr Is-Ganghellor ar gyfer blwyddyn academaidd 2017–18, o'i gymharu â'r tâl am y flwyddyn flaenorol, fel a ganlyn (gyda'r ffigurau wedi'u talgrynnu i'r £1,000 agosaf yn unol â'r ffordd y'i hadroddir yn Natganiadau Ariannol y Brifysgol):

| | 2017–18 | 2016–17[1] |
|---|---|---|
| Cyflog | £224,000 | £73,000 |
| Tâl yn gysylltiedig â pherfformiad | £0 | £0 |

[1] Am y cyfnod 03 Ebrill hyd at 31 Gorffennaf 2017.

| | | |
|---|---|---|
| Buddion[2] | £1,000 | £0 |
| **Is-gyfanswm** | **£225,000** | **£73,000** |
| Costau pensiwn | £5,000 | £2,000 |
| **Cyfanswm** | **£230,000** | **£75,000** |

Ar gyfer y cyfnod 2017–18, roedd lluosrif tâl enillion yr Is-Ganghellor (£225,000) yn erbyn canolrif enillion yr holl staff (staff yn cyfateb ag amser llawn, ac eithrio Gweithwyr Aber a staff wrth gefn: £32,090) oedd 1:7.

Gall yr Is-Ganghellor ymgymryd â gwaith allanol gyda phartïon eraill y tu allan i'r Brifysgol, gan gynnwys Cyfarwyddiaethau neu aelodaeth o Fyrddau, gyda chaniatâd ysgrifenedig y Cadeirydd. Bydd cadw unrhyw incwm a gynhyrchir gan gyrff allanol yn cael ei gytuno ar sail achosion unigol. Nid yw'r Is-Ganghellor yn derbyn unrhyw incwm ychwanegol gan y cyrff allanol y mae'n gwasanaethu arnynt.

Fel yn achos yr holl gyflogeion eraill, caiff yr Is-Ganghellor hawlio ad-daliad o wariant allan o boced yn unol â threfniadau Cyllid a Theithio cymeradwy'r Brifysgol. Mae unrhyw hawliadau o'r fath gan yr Is-Ganghellor yn amodol ar gymeradwyaeth gan Gadeirydd y Cyngor.

[2] Buddion trethadwy'n ymwneud â llety ym Mhlas Penglais, lle mae'n ofynnol i'r Is-Ganghellor fyw.